Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gronant

**Nant Y Gro**
**Gronant**
**Ger Prestatyn**
**Sir y Fflint**
**LL19 9YP**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gronant

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gronant |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir y Fflint |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 57 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 47 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 8 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 27.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 10.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/07/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 01/07/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae arweinwyr a llywodraethwyr wedi dod ag Ysgol Trelogan ac Ysgol Gronant at ei gilydd i ffurfio ffederasiwn llwyddiannus o ysgolion. Caiff Ffederasiwn Y Parlwr Du ei arwain yn dda ac mae'r ddwy ysgol yn lleoedd croesawgar i ddysgu. Mae staff wedi ymrwymo i wella pob agwedd ar fywyd ysgol. Maent yn gweithio'n galed i gynnal perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol rhwng staff a disgyblion, a rhwng yr ysgol a'r cartref.

Yn Ysgol Gronant, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol. Maent yn ddiogel, a gwrandewir arnynt, ac yn teimlo bod eu syniadau'n gwneud gwahaniaeth yn yr ysgol a'r gymuned leol. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda. Mae llawer ohonynt yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r ystod eang o brofiadau dysgu a ddarperir, ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae ymagwedd yr ysgol at gynllunio profiadau dysgu yn hynod effeithiol ac mae disgyblion yn mwynhau cyfleoedd cyffrous i ddysgu gan ystod eang o bobl o gefndiroedd amrywiol sy'n rhannu eu medrau, eu doniau a'u diwylliannau. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'r hyder a'r medrau i fynegi eu hunain yn huawdl, rhannu eu syniadau, a datblygu empathi a dyhead.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at lafaredd, darllen ac ysgrifennu ac yn mwynhau'r cyfleoedd niferus i fod yn fynegiannol a chreadigol. Maent yn defnyddio dyfeisiau digidol yn effeithiol i gefnogi eu dysgu a llunio cyflwyniadau, dyluniadau a ffilmiau byr. Maent yn datblygu medrau a gwybodaeth fathemategol dda.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau, fel holi effeithiol ac adborth uniongyrchol, i ymestyn y dysgu. Maent yn cynllunio dilyniannau o wersi sy'n cynorthwyo disgyblion i feithrin eu medrau'n raddol mewn llawer o agweddau ar eu dysgu. Maent yn aml yn gweithio gyda'u disgyblion i gynllunio profiadau dysgu ystyrlon sy'n ymgysylltu â nhw ac yn dal eu diddordeb. Mae llawer o'r profiadau hyn yn galluogi disgyblion i ddarganfod am hanes a diwylliant eu hardal leol a Chymru, ac archwilio materion sy'n effeithio arnyn nhw a phobl eraill, fel tegwch a chynaliadwyedd. Mae disgyblion iau yn elwa'n fawr ar gyfleoedd dysgu ystyriol yn yr awyr agored.

O oedran ifanc, mae disgyblion yn awyddus i wneud yn dda ac ymgymryd â heriau newydd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion hŷn yn cael digon o ddylanwad dros eu dysgu eu hunain, ac nid ydynt bob amser yn deall sut i wella'u gwaith yn llwyddiannus dros gyfnod.

## Argymhellion

A1 Datblygu disgyblion hŷn i fod yn ddysgwyr annibynnol effeithiol

A2 Gwella ansawdd adborth ar gyfer disgyblion hŷn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â chynllunio dysgu dilys i feithrin perthnasoedd ar draws ffederasiwn o ysgolion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau islaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol.

Mae medrau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dangos eu medrau'n frwdfrydig, er enghraifft wrth rannu eu syniadau ynglŷn â phwy dorrodd i mewn i dŷ'r tri arth fel rhan o'u gwaith testun. Maent yn rhoi datganiadau clir o dystiolaeth i'r heddlu, ac yn ymhelaethu ar eu barn. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau iau yn addasu eu siarad yn briodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Er enghraifft, wrth gofnodi adroddiad newyddion, maent yn defnyddio tôn ffurfiol ac yn taflu eu lleisiau. Yn gyffredinol, mae disgyblion hŷn yn parhau i ddatblygu eu siarad yn briodol. Mae llawer ohonynt yn gofyn cwestiynau defnyddiol ac yn ymateb i syniadau disgyblion eraill yn barchus. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i fynegi eu syniadau a'u barn mewn cyd-destunau digon heriol, ac mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wnânt.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn briodol. Mae disgyblion iau yn datblygu ystod gadarn o strategaethau darllen cynnar, ac erbyn Blwyddyn 2, maent yn aml yn darllen â rhuglder a mynegiant, gan alw i gof yn fanwl blot a chymeriadau stori y maent yn ei rhannu. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn darllen â rhuglder a goslef gynyddol. Mae disgyblion hŷn yn dechrau datblygu eu medrau'n addas i esbonio a thrafod eu darllen, ac yn defnyddio llyfrau a gwybodaeth ar-lein yn briodol i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm.

At ei gilydd, mae disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu effeithiol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion iau yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar cadarn. Maent yn ffurfio llythrennau'n gywir, yn ysgrifennu'n bwrpasol mewn brawddegau syml ac yn gwneud ymdrechion argyhoeddiadol i sillafu geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae disgyblion yn ysgrifennu ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd, er enghraifft i greu storïau difyr am gi sydd ar goll. Maent yn drafftio ac yn diwygio'u gwaith, ac yn cyflwyno'r darn terfynol yn ddestlus, gan ddefnyddio ystod o atalnodi addas, a dewis geiriau i greu effaith. Maent yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn effeithiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu cardiau post a gwahoddiadau yn gysylltiedig â'u gwaith ar garnifalau. Mae llawer o

ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu'n effeithiol at ystod o ddibenion, er enghraifft trwy erthyglau newyddion a bywgraffiadau. Maent yn defnyddio ystod o eirfa ddiddorol i ennyn diddordeb y darllenydd, er enghraifft wrth ysgrifennu barddoniaeth i gyfleu neges ddifrifol. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio'u gwybodaeth am ysgrifennu cyfarwyddol i ddatblygu ryseitiau ar gyfer bwydydd addas y maent yn eu paratoi ar gyfer dathliadau carnifal yr ysgol. Maent yn rhannu eu hymchwil ar newid hinsawdd trwy ffeithlenni a thaflenni.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau Cymraeg yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 1, mae llawer o ddisgyblion yn holi ac ateb ystod o gwestiynau sylfaenol. Maent yn trafod ac yn disgrifio'r tywydd gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion syml. Mae disgyblion hŷn yn gofyn ac ateb cwestiynau â hyder datblygol. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn dechrau datblygu medrau ysgrifennu cadarn, gan ddefnyddio amser y gorffennol a'r dyfodol i ddisgrifio digwyddiadau.

Mae disgyblion iau yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu gwybodaeth fathemategol. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o gynhwysedd wrth ymchwilio i gyfaint y tywod a'r dŵr sydd ei angen i lenwi amrywiaeth o gynwysyddion, ac yn trafod eu canfyddiadau gyda'i gilydd. Maent yn trosglwyddo'u medrau rhifedd yn rhwydd ac yn hyderus i agweddau eraill ar eu dysgu a'u chwarae. Yn eu caffi ystafell ddosbarth, maent yn nodi'r darnau arian cywir sydd eu hangen i wneud £5 neu £10, yn trefnu darnau arian yn ôl eu gwerth rhifiadol ac yn adio cost eitemau ar y fwydlen. Yn gyffredinol, mae disgyblion hŷn yn meithrin eu dealltwriaeth fathemategol i wneud cynnydd priodol. Er enghraifft, maent yn defnyddio sgwariau ac onglyddion penodol i fesur a chreu onglau. Maent yn defnyddio'u gwybodaeth am linellau paralel, llorweddol ac unionsyth wrth ddylunio, ac yn cynrychioli data wrth gyfrifo cyfansymiau a chreu graffiau. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cymhwyso'u gwybodaeth yn briodol i'w dysgu mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Mae disgyblion iau yn gwneud cynnydd eithriadol o dda yn datblygu eu medrau digidol. Maent yn anfon ac yn derbyn negeseuon e-bost ac yn creu cyflwyniadau gan ddefnyddio delweddau a thrawsnewidiadau yn effeithiol. Maent yn creu ffilmiau byr, gan ddewis cefndiroedd a cherddoriaeth i gyd-fynd â'r ffilm. Mae disgyblion Blwyddyn 3 yn adeiladu ar y medrau hyn i greu cerddoriaeth i'w hychwanegu at eu cyflwyniadau cyfryngau. Mae disgyblion hŷn yn cyhoeddi eu hymchwil ar wefannau ac yn creu gemau digidol effeithiol gan ddefnyddio apiau ac electroneg.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau creadigol a mynegiannol yn dda. Mae disgyblion iau yn elwa'n fawr ar gyfleoedd i weithio gyda phren ac offer i greu eitemau fel blychau adar ac ieir bach yr haf. Maent yn cynllunio'u dyluniadau, gan gynnwys y mesuriadau, cyn casglu'r adnoddau a'r offer sydd eu hangen arnynt. Maent yn gweithio'n fedrus gyda hoelion, morthwylion a llifiau, ac yn gwerthuso'u dyluniadau gorffenedig, gan wneud penderfyniadau ynglŷn â'r hyn y gallent ei wella ymhellach. Trwy'r testun diweddar, sef 'Carnifal', mae disgyblion hŷn yn defnyddio'u dychymyg i ddatblygu eu syniadau. Er enghraifft, maent yn creu strwythurau cywrain o helygen ac yn addurno'r rhain yn lanternau carnifal. Maent yn datblygu eu gwerthfawrogiad o gerddoriaeth ac yn cyfansoddi a pherfformio'u cyfansoddiadau cerddorol eu hunain.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu perthnasoedd gwaith cryf â staff a gyda'i gilydd. O ganlyniad, maent yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn derbyn gofal, a bod pobl yn gwrando arnynt. Maent yn falch o'r siarteri a greon nhw sy'n eu helpu i ffurfio cyfeillgarwch parchus. Mae staff yn gosod ffiniau clir sy'n helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi ac o gwmpas yr ysgol, ac mae hyn yn eu cynorthwyo i wneud y gorau o'u dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau dysgu ac yn ymgysylltu, gwrando a chymryd rhan yn dda mewn gwersi. Wrth weithio'n annibynnol ar weithgareddau a ddewiswyd, maent yn ymdawelu ar unwaith i weithio, ac yn dangos dyfalbarhad. Mae disgyblion iau yn gweithio'n hapus mewn grwpiau bach ac ar dasgau annibynnol, ac yn dewis adnoddau defnyddiol i'w helpu yn eu dysgu. Maent yn mwynhau gwneud awgrymiadau am sut i wella'u gwaith. Er enghraifft, wrth recordio ffilm fer, maent yn awgrymu y byddai dyfais â meicroffon wedi'i fewnosod yn darparu sain o ansawdd gwell y tro nesaf. O roi'r cyfle iddynt, mae disgyblion hŷn yn dechrau ffurfio barn, cynhyrchu syniadau a gwneud dewisiadau am eu gwaith. Pan fyddant yn ymgysylltu â'u dysgu, maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig ac yn dechrau meddwl am sut bydd yr hyn y maent yn ei ddysgu nawr yn eu helpu yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i adeiladu'n effeithiol ar eu medrau dysgu'n annibynnol. At ei gilydd, mae cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu a gwneud awgrymiadau am sut maent yn dysgu a sut i wella'u gwaith.

Wrth iddynt symud trwy'r grwpiau blwyddyn, mae disgyblion yn dangos gwydnwch cynyddol, er enghraifft wrth ddatrys problemau. Mae disgyblion iau yn meddwl am y gwahanol ffyrdd y gallant grwpio darnau arian i'w helpu i gyfrifo'r elw a wnaed o'u gemau carnifal. Mae disgyblion hŷn yn cydweithio'n dda wrth ddatrys problem am sut i lenwi bwlch yn amserlen y carnifal. Maent yn penderfynu creu, cyfansoddi a pherfformio cerddoriaeth sy'n draddodiadol addas i ddiddanu'r gymuned.

O oedran ifanc, mae disgyblion yn dechrau esbonio a thrafod eu dysgu. Maent yn ystyried eu llwyddiannau yn ofalus ac yn nodi ffyrdd o wella'u gwaith, er enghraifft trwy ddewis yr offer gorau, gan fesur yn gywir a dilyn rheolau diogelwch yn ystod heriau gwaith coed. Mae disgyblion hŷn yn herio'u hunain yn briodol yn eu gwaith creadigol. Er enghraifft, wrth ddylunio a chreu gwisgoedd, maent yn mireinio ac addasu eu syniadau gan ystyried ymarferoldeb ac effaith. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cael cyfleoedd digonol i fyfyrio'n briodol ar agweddau pwysig ar eu dysgu. O ganlyniad, nid yw disgyblion hŷn yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon cadarn o ddiben eu dysgu na sut i wella'u gwaith dros gyfnod.

Mae disgyblion yn dysgu sut i fod yn ddinasyddion moesegol trwy eu gwaith ar newid hinsawdd a'i effaith ar yr ardal leol ac yn fyd-eang. Maent yn datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad cadarn o amrywiaeth trwy brofiadau dysgu diwylliannol cyfoethog. Er enghraifft, wrth ddathlu Diwali, maent yn cynnwys aelodau o'r gymuned sy'n rhannu eu ffydd, eu traddodiadau a'u dulliau coginio trwy gydol yr ŵyl. Mae disgyblion yn dechrau datblygu synnwyr o degwch a hawliau wrth ystyried effaith tywydd eithafol ar bobl ledled y byd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod eu barn am wella'r ysgol yn cael ei gwerthfawrogi. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu rolau arweinyddiaeth ac yn cyfrannu eu syniadau ar gyfer gwella'r ysgol. Llwyddodd disgybl-lywodraethwyr i wella lles trwy eu gwaith ar ymestyn darpariaeth amser egwyl. Mae'r Cyngor Eco yn gweithio gyda staff i arwain newidiadau i amgylchedd yr ysgol trwy gymryd cyfrifoldeb am ailgylchu, codi sbwriel ac annog bioamrywiaeth mewn ardaloedd coetir.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau cyfleoedd i fod yn egnïol amser egwyl ac yn ystod gweithgareddau corfforol. Mae llawer ohonynt yn gwneud dewisiadau iach ac yn deall pwysigrwydd bwyta diet cytbwys. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i aros yn ddiogel ar-lein, cadw eu manylion personol yn ddiogel a siarad ag oedolyn y maent yn ymddiried ynddo os bydd materion yn codi. Mae ffocws yr ysgol ar les emosiynol yn cynorthwyo disgyblion i ddeall eu hemosiynau a'u perthnasoedd.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan arweinwyr ac athrawon weledigaeth glir ar gyfer cwricwlwm yr ysgol sydd wedi'i gwreiddio yn niwylliant Cymru ac yn anelu at godi dyheadau disgyblion. Mae staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i greu profiadau dysgu cyfoethog ac ystyrlon a datblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant i ymateb i ddiwygio'r cwricwlwm.

Mae ymagwedd greadigol y ffederasiwn at gynllunio dysgu, sy'n canolbwyntio ar 'bobl, lle a phroblem', yn galluogi athrawon i gynllunio testunau sy'n adlewyrchu profiadau'r disgyblion eu hunain, ac adeiladu arnynt. Er enghraifft, ar ôl darganfod blwch o hen ffotograffau, adfywiodd yr ysgol garnifal y gymuned leol, nad oedd wedi cael ei gynnal er 1982. Mae'r ffocws diweddar hwn ar y 'Carnifal' yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ar draws y ffederasiwn ddatblygu eu creadigrwydd, eu dychymyg a'u mynegiant trwy farddoniaeth, dylunio, cerddoriaeth a chelf. Mae'r profiadau integredig hyn yn galluogi llawer o ddisgyblion i ddatblygu eu meddwl beirniadol a gwneud cynnydd da mewn datblygu ystod o fedrau.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio dilyniannau o wersi sy'n galluogi disgyblion i drosglwyddo agweddau ar eu gwybodaeth a'u medrau i feysydd eraill o'r cwricwlwm. Mae ffocws ar ddatblygu ysgrifennu, er enghraifft, yn cynorthwyo disgyblion i ddefnyddio iaith ddisgrifiadol gynyddol gymhleth ac effeithiol yn eu gwaith llafaredd ac ysgrifenedig. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn ymgymryd yn dda ag ystod gynyddol o gyfleoedd i gymhwyso'u medrau digidol i gefnogi ac ymestyn eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth am gysyniadau mathemategol yn systematig ac yn gweithio'n effeithiol gyda disgyblion eraill i ddatrys problemau. Mae disgyblion iau yn aml yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u medrau yn hyderus ac yn fedrus i agweddau eraill ar eu gwaith. Fodd bynnag, mae llai o gyfleoedd i ddisgyblion hŷn gymhwyso'u medrau yn bwrpasol i'w gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o hanes a diwylliant Cymru. Maent yn archwilio bywyd y naturiaethwr a'r awdur lleol, Thomas Pennant, gan ystyried ei fywyd a'i ddylanwad ar y Gymru ddiwydiannol. Mae disgyblion yn efelychu gwaith arlunwyr o Gymru, yn ymuno â thraddodiadau ac yn dathlu diwrnodau a digwyddiadau arbennig fel Eisteddfod yr Urdd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn magu

hyder wrth gynnal sgyrsiau syml, ac yn gofyn ac ateb ystod o gwestiynau yn gysylltiedig â'u dysgu.

Mae disgyblion yn mwynhau dysgu yn amgylchedd awyr agored datblygedig yr ysgol. Mae disgyblion iau yn mwynhau cyfleoedd i atgyfnerthu eu dysgu am gynhwysedd yn y gegin fwd a mireinio'u medrau crefft wrth adeiladu blychau ieir bach yr haf ac adar gydag offer gwaith coed. Mae disgyblion hŷn yn elwa ar gyfleoedd i wella'u medrau corfforol yn yr awyr agored yn ystod gwersi Addysg Gorfforol ac wrth gystadlu mewn digwyddiadau chwaraeon. Maent yn datblygu eu gwaith tîm a'u gwydnwch yn ystod ymweliadau preswyl. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion hŷn gymryd rhan yn ystyrlon mewn dysgu yn yr awyr agored.

Mae cynllunio'r ysgol i ddatblygu medrau mynegiannol disgyblion yn gryfder. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn cymysgu lliwiau yn annibynnol i greu eu harlliw dymunol ac yn cyfuno cyfryngau yn ddychmygus i greu collage. Mae disgyblion yn dylunio ac yn cerfio Môr-wenoliaid Bach yn fedrus o bren fel rhan o'u hastudiaeth o Dwyni cyfagos Gronant.

Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Maent yn defnyddio dulliau i ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus yn eu dysgu. Maent yn defnyddio holi'n bwrpasol, yn mynd i'r afael â chamdybiaethau, ac yn addasu eu haddysgu i gynorthwyo disgyblion i wneud y cynnydd y dylent ei wneud. Mae llawer o athrawon yn creu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion rannu eu syniadau am sut maent yn dysgu, ac maent yn dechrau cynorthwyo disgyblion i fyfyrio'n briodol ar eu dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o ddisgyblion ac nid ydynt yn ennyn eu diddordeb yn briodol mewn dysgu. Yn y dosbarthiadau hyn, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud cynnydd digonol yn datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o'r athrawon yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm, yn cynllunio gyda bwriadau dysgu clir ac yn rhoi esboniadau sy'n helpu disgyblion i ddeall beth i'w wneud. Maent yn rhoi adborth i ddisgyblion, sy'n eu galluogi i wella'u gwaith yn ystod gwersi a herio'u hunain yn briodol. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau, nid yw athrawon bob amser yn rhoi adborth defnyddiol i fynd i'r afael â chamdybiaethau disgyblion neu i'w cynorthwyo i wneud gwelliannau i'w gwaith mewn modd amserol. Nid yw athrawon yn cynllunio cyfleoedd i drafod cynnydd gyda disgyblion hŷn yn fanwl yn ddigon aml. O ganlyniad, nid yw disgyblion hŷn bob amser yn glir am ddiben eu dysgu na sut i wella'u dysgu dros gyfnod.

Ar draws yr ysgol, mae cynorthwywyr addysgu yn cynorthwyo disgyblion yn effeithiol i wneud cynnydd yn eu dysgu. Maent yn adlewyrchu ethos cynnes a chefnogol yr ysgol yn eu perthnasoedd gwaith â disgyblion, gan ddarparu cymorth cryf ar gyfer anghenion dysgu unigol disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Ar draws Ffederasiwn Y Parlwr Du, mae staff yn creu amgylchedd diogel, anogol a chynhwysol ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cymorth greddfol a gânt. Mae ymagwedd

yr ysgol at gynorthwyo disgyblion â'u hanghenion cymdeithasol ac emosiynol yn galluogi'r rhan fwyaf ohonynt i reoli eu hemosiynau a deall pryd y gallai fod angen iddynt ofyn am gymorth ychwanegol. Mae'r cymorth ystyriol hwn yn gwella presenoldeb ac yn ysgogi newid cadarnhaol ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol.

Mae arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr addysgu yn sicrhau croeso cynnes a chymorth cynnar ar gyfer teuluoedd y disgyblion ieuengaf. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae staff yn parhau i gynnwys rhieni trwy ddigwyddiadau, gweithdai, dysgu rhwng y cartref a'r ysgol a chyfleoedd rheolaidd i drafod dysgu a chynnydd eu plant. O ganlyniad, mae rhieni'n teimlo'u bod wedi'u harfogi'n dda i gynorthwyo'u plant gartref.

Mae'r ysgol wedi datblygu systemau clir i nodi'r cymorth mwyaf effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae arweinwyr ADY yn darparu cymorth cryf ar gyfer staff trwy gyngor ac arweiniad pwrpasol. Mae athrawon yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol i gynllunio cymorth sy'n adlewyrchu anghenion unigol disgyblion yn fanwl gywir. Mae cynorthwywyr addysgu medrus yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu yn effeithiol, gan yn aml eu cymell i ddatblygu eu hyder a'u gwydnwch. O ganlyniad, mae disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd disgwyliedig, o leiaf, tuag at eu lles a'u targedau dysgu unigol.

Mae arweinwyr ac athrawon yn gwerthfawrogi rôl ymweliadau ac ymwelwyr mewn ymestyn cwricwlwm y ffederasiwn ac mewn codi dyheadau disgyblion. Trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol, mae disgyblion yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ddysgu gyda, ac oddi wrth, y rhai sydd â phrofiad bywyd, y rhai mewn amrywiaeth o yrfaoedd a'r rhai sydd â doniau unigol. Mae'r profiadau dysgu cyfoethog a dilys hyn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ehangu eu meddwl, defnyddio'u dychymyg a datblygu ystod eang o fedrau. Mae disgyblion hŷn yn elwa ar gysylltiadau agos ag ysgolion uwchradd. Er enghraifft, mae'r gweithgareddau pontio y maent yn cymryd rhan ynddynt o Flwyddyn 5 ymlaen yn eu cynorthwyo i ddatblygu perthnasoedd cynnar â disgyblion ar draws y ffederasiwn ac yn yr ardal leol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o arlunwyr ac ymarferwyr creadigol lleol i gefnogi datblygiad artistig a mynegiannol disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau gweithgareddau chwaraeon fel criced a phêl-droed. Maent yn elwa ar gyfleoedd i ehangu eu profiadau ar ymweliadau sydd wedi'u cynllunio i gyfoethogi eu gwybodaeth, eu medrau a'u lles.

Mae disgyblion etholedig yn datblygu'n addas fel arweinwyr, yn cynrychioli barn eu cyfoedion ac yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr i waith yr ysgol a'r gymuned. Er enghraifft, mae disgybl-lywodraethwyr yn gweithio ar ran disgyblion i gychwyn gwneud gwelliannau i'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored, a threfnu diwrnodau arbennig wedi'u hanelu at godi arian ar gyfer elusen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cyfrannu syniadau pwrpasol at gynlluniau athrawon. Yn aml, mae disgyblion iau yn dylanwadu ar sut maent yn dysgu, yn ogystal â beth. Fodd bynnag, nid yw disgyblion hŷn yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, yn gyffredinol.

Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i fyfyrio ar eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain a rhai pobl eraill trwy wersi ac fel rhan o'u haddoli ar y cyd. Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthfawr ag aelodau o gymunedau ffydd sy'n dyfnhau dealltwriaeth disgyblion o ystod o ddiwylliannau trwy brofiadau dysgu, ymweliadau a

digwyddiadau. Mae eu gwaith ar y 'Carnifal', er enghraifft, yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth o sut a pham mae cymunedau'n cynnal carnifalau ledled y byd. Mae archwilio diwylliant Indiaidd yn ystod Diwali yn eu cynorthwyo i ddysgu am fwyd a gwisg teuluoedd Hindŵaidd traddodiadol a modern. Mae'r profiadau hyn yn dechrau cefnogi dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol, wrth iddynt ddechrau darganfod effaith digwyddiadau yn y byd ar fywydau pobl eraill. Maent yn ystyried, er enghraifft, effeithiau dadleoli ar bobl oherwydd tywydd eithafol diweddar a digwyddiadau hanesyddol fel Windrush.

Mae prosesau i hyrwyddo cyfraddau cadarnhaol presenoldeb disgyblion yn effeithiol. Mae trefniadau'r ysgol i ddiogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr ar draws Ffederasiwn Y Parlwr Du wedi bod yn effeithiol o ran dod ag Ysgol Trelogan ac Ysgol Gronant at ei gilydd i ffurfio cymuned lle mae gan ddisgyblion a staff ymdeimlad cryf o berthyn. Mae arweinwyr yn hyrwyddo gweledigaeth ar y cyd yn llwyddiannus i greu amgylchedd croesawgar ac anogol, i ddarparu profiadau dysgu difyr a heriol i gymell disgyblion a'u paratoi'n llwyddiannus ar gyfer y dyfodol. Mae teuluoedd yn mwynhau'r cyfleoedd a ddarperir gan y ddwy ysgol iddynt ddod at ei gilydd yn un gymuned, i ddathlu digwyddiadau neu rannu profiadau dysgu disgyblion. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r wybodaeth reolaidd a gânt am ddysgu a chynnydd eu plentyn, a'r arweiniad a ddarperir gan yr ysgol sy'n eu helpu i gefnogi dysgu eu plentyn gartref.

Mae arweinwyr yn sefydlu ethos o werthuso gwaith yr ysgol a'i effaith ar ddeilliannau disgyblion yn barhaus ac yn onest. Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn elwa'n fawr ar ddisgwyliadau uchel athrawon a phrofiadau dysgu heriol, gan alluogi disgyblion iau i ddatblygu eu dychymyg a'u hiaith, ac i ddisgyblion hŷn ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau mewn cyd-destunau ystyrlon ar draws y cwricwlwm. Mae'r profiadau hyn yn galluogi disgyblion i ystyried y medrau, y wybodaeth a'r agweddau fydd eu hangen arnynt i wireddu eu gobeithion ar gyfer y dyfodol. Mae ymateb y ffederasiwn i ddiwygio ADY wedi bod yn hynod effeithiol wrth sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae ei ymagwedd at ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion, a'u brwdfrydedd dros yr iaith.

Mae'r prosesau monitro a hunanwerthuso trylwyr sydd ar waith yn effeithiol. Mae arweinwyr yn cynnal ystod o weithgareddau pwrpasol sy'n helpu rhoi darlun clir o ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn gwerthfawrogi natur gydweithredol gwella'r ysgol ac maent yn barod i addasu dulliau i ddiwallu anghenion eu disgyblion. Mae'r ffocws diweddar ar wella ysgrifennu, er enghraifft, wedi cael effaith arwyddocaol ar ansawdd ysgrifennu creadigol llawer o ddisgyblion a'r cynnydd a wnânt yn datblygu eu medrau llythrennedd.

Mae blaenoriaethau'r ffederasiwn ar gyfer gwella ar y cyd yn canolbwyntio'n gywir ar wella ansawdd yr addysgu a sicrhau deilliannau priodol ar gyfer disgyblion yn eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae arweinwyr ar bob lefel yn gweithio fel tîm effeithiol i ysgogi newid. Maent yn monitro effaith eu strategaethau gwella ar ddisgyblion yn bwrpasol, gan adolygu a mireinio dulliau yn sgil eu gwerthusiadau. Er enghraifft, mae

arweinwyr yn nodi anghysondebau yn ansawdd yr addysgu ac yn creu cynlluniau trylwyr i fynd i'r afael â pherfformiad gwael.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o bob un o'r staff. Maent yn defnyddio systemau rheoli perfformiad a gweithio mewn partneriaeth yn dda i nodi anghenion datblygiad proffesiynol a chefnogi gwelliant ysgol gyfan. Mae llawer o athrawon a chynorthwywyr addysgu yn teimlo'u bod yn cael cymorth i dreialu ymagweddau ac addasu dulliau ac ymyriadau i ddiwallu anghenion disgyblion. Er enghraifft, mae'r gwaith effeithiol i ddatblygu cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae'r ffederasiwn yn eu gwasanaethu yn ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion yn eu dysgu yn llwyddiannus. Mae'r ffocws diweddar ar ehangu profiadau dysgu disgyblion iau yn cael effaith sylweddol ar chwilfrydedd disgyblion a chyflymdra'r cynnydd yn y dosbarthiadau hyn.

Caiff gwaith y ffederasiwn i leihau unrhyw rwystrau rhag dysgu neu les ar gyfer disgyblion o aelwydydd incwm isel ei weithredu'n llwyddiannus. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gallu manteisio ar ystod lawn y cyfleoedd a'r profiadau a gynigir.

Mae arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr addysgu yn ffurfio tîm cryf, cefnogol a myfyriol. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff ddysgu oddi wrth ei gilydd ac ymweld ag ysgolion eraill. Maent yn annog staff i fyfyrio ar sut gellid defnyddio'r arfer a arsylwyd i wella'u harfer eu hunain, a rhannu dulliau newydd ar draws y ffederasiwn. Mae arweinwyr ac athrawon yn rhoi cymorth gwerthfawr i gydweithwyr, er enghraifft trwy fodelu ac addysgu mewn timau. Mae'r dull hwn yn sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd cyson uchel ar gyfer llawer o ddisgyblion.

Mae arweinwyr yn cydnabod cyfleoedd i ddatblygu uwch staff a chynorthwyo athrawon i ddatblygu'n effeithiol fel arweinwyr canol, gan gryfhau effeithiolrwydd prosesau gwerthuso'r ysgol. Mae'r ymagwedd gynhwysol at ddatblygiad staff yn sicrhau bod cynorthwywyr addysgu a staff cymorth yn aml yn datblygu'n ymarferwyr medrus.

Mae llywodraethwyr yn dangos ymrwymiad cryf i'w rôl ac yn defnyddio ehangder o arbenigedd i gefnogi gwaith y ffederasiwn. Maent yn canolbwyntio'n briodol ar werthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws y ddwy ysgol ac yn datblygu dealltwriaeth glir o gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae llywodraethwyr yn cynorthwyo uwch arweinwyr yn dda i hyrwyddo diwylliant diogelu cadarnhaol a sicrhau bod polisïau effeithiol ar waith i hyrwyddo pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  03/09/2024